# Crynodeb o'r Prosiect Paratoi- Pen-y-bont ar Ogwr

### Adnoddau

Mae ein hadnoddau yn dilyn elfennau allweddol o ddiffiniad Llywodraeth Cymru o Gynhwysiad Ariannol, fel sydd yn eu dogfen Strategaeth Cynhwysiad Ariannol:

1. Mynediad at wasanaethau credyd ac ariannol fforddiadwy
2. Mynediad at wybodaeth ariannol, gan gynnwys cyngor ar ddyledion; ac
3. Adeiladu dealltwriaeth a gallu ariannol.

# PROSIECT PARATOI

Yma byddwn ni'n siarad am y prosiect a'i nodau

## Y prosiect

- Mae'n cael ei gyflwyno gan Lleisiau o Ofal Cymru gyda Plant yng Nghymru, gyda chefnogaeth ariannol trwy 'Gronfa Arloesi Darpariaeth a Chefnogaeth Addas – Grant Atal Digartrefedd' Llywodraeth Cymru.
- Un o nodau'r gronfa yw cynyddu'r gefnogaeth tai sydd ar gael i bobl ifanc agored i niwed sy'n symud o ofal yr awdurdod lleol i fyw'n annibynnol.



## Cwmpas y prosiect

- Mae'r Prosiect Paratoi yn canolbwyntio ar waith mewn tair ardal awdurdod lleol:
- Mae'r set yma o adnoddau ar gyfer Ynys Môn, a bydd yn cynnwys peth gwybodaeth sy'n berthnasol i Ynys Môn yn unig
- Nid yw'r wybodaeth i gyd yn benodol i ardal, a bydd peth ohoni'n gallu cael ei defnyddio gan unrhyw berson ifanc yng Nghymru sydd â phrofiad o ofal

Mae gweithiwr prosiect yn sy'n gallu gweithio ochr yn ochr â'th Ymgynghorydd Personol i'th gefnogi i symud yn hyderus o ofal i annibyniaeth.

- Tracey Carter
- tracey.carter@vfcc.org.uk

## Nodau'r prosiect

- Darparu cefnogaeth i ti bontio'n ddiogel o ofal
- Dy helpu i gael cefnogaeth yn y gymuned
- Dy wneud ti'n gryfach trwy ychwanegu at dy wybodaeth a faint rwyt ti'n deall am dy hawliau a'r pethau dylet ti gael wrth gynllunio ar gyfer gadael gofal
- Dy wneud ti'n fwy hyderus i ddadlau dros newid
- Helpu i gynyddu dy wybodaeth i'th gadw di'n ddiogel rhag digartrefedd, ochr yn ochr â gwella dy lesiant cyffredinol
- Dy gynnwys wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso'r prosiect

## Gweithdai

- Fel rhan o'r prosiect mae Plant yng Nghymru yn awyddus i gyflwyno gweithdai i'th helpu i gynyddu dealltwriaeth ariannol er mwyn adeiladu ar yr adnoddau sydd wedi cael eu cynhyrchu.
- Os wyt ti'n berson ifanc sydd â phrofiad o ofal neu'n cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, ac yn awyddus i drefnu gweithdy, cysyllta â ni i gael rhagor o wybodaeth
- gettingready@childreninwales.org.uk

## Sut mae defnyddio'r adnoddau

Mae pob adnodd gan Plant yng Nghymru wedi'i lunio:

- I'w ddefnyddio ar ei ben ei hun os bydd angen
- I'w ddefnyddio gyda rhai o'r adnoddau eraill a grewyd
- Fel un pecyn mawr o adnoddau

Mae pob adnodd yn cynnwys nifer o ddolenni gwe lle mae rhagor o wybodaeth am faes diddordeb penodol.

Rydyn ni hefyd wedi creu cyfres o adnoddau 'padlet' ar-lein sy'n rhoi sylw i'r un pynciau sy'n cael eu rhestru ar y dudalen nesaf, gan gynnwys rhai pynciau allweddol:

# YR ADNODDAU

Ar gyfer pwy mae'r adnoddau wedi eu llunio? Yma byddwn ni'n edrych ar y brif gynulleidfa darged, er y byddai rhai o'r adnoddau'n ddefnyddiol i unrhyw berson ifanc.

## Profiad o Ofal neu'n Gadael Gofal?

Yn yr adnoddau rydyn ni'n dilyn y diffiniadau cyfreithiol o 'dderbyn gofal' ac ymadawyr gofal:

- Mae 'derbyn gofal' yn golygu dy fod ti wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol am gyfnod o 13 wythnos rhwng 14 ac 16 oed
- Mae Adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn cyflwyno'r categorïau gwahanol o bobl ifanc sydd yn neu sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol
- Mae hawl gan bob categori i gael gwahanol fathau neu lefelau o gefnogaeth gan eu hawdurdod lleol wrth adael gofal. O ganlyniad, bydd peth o'r wybodaeth yn yr adnoddau yn berthnasol i ti dim ond os wyt ti'n perthyn i un o'r categorïau hyn.

## Categorïau o ymadawyr gofal

Mae peth o'r wybodaeth yn yr adnoddau yn cymryd yn ganiataol dy fod ti'n perthyn i un o'r dosbarthiadau yma o bobl ifanc:

- Categori 1- rwyt ti'n 16 neu'n 17 oed, yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, ac wedi bod yn derbyn gofal am o leiaf 13 wythnos rhwng 14 ac 16 oed.
- Categori 2- rwyt ti'n 16 neu'n 17 oed, ddim yn derbyn gofal gan awdurdod lleol bellach, ond byddet ti wedi bod yn berson ifanc categori 1.
- Categori 3- rwyt ti'n 18 oed neu'n hŷn, wedi arfer bod yn berson ifanc categori 2 a byddet ti'n dal yn y categori yna taset ti o dan 18 oed. Neu roeddet ti'n derbyn gofal gan awdurdod lleol pan gyrhaeddaist ti 18 oed, ac yn union cyn i ti adael gofal, roeddet ti'n berson ifanc categori 1.

## Fy Awdurdod Lleol i?

- Mae'r set yma o adnoddau wedi cael ei llunio gyda chefnogaeth Pen-y-bont ar Ogwr
- Felly lle mae'r wybodaeth yn sôn am berson ifanc sydd â phrofiad o ofal, mae'n cymryd yn ganiataol dy fod ti'n 'derbyn gofal' gan Pen y bont-ar Ogwr..
- Os wyt ti'n byw ar Ynys Môn, ond yn 'derbyn gofal' gan awdurdod lleol gwahanol – bydd angen i ti gysylltu â'th awdurdod lleol i gael gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael.

## Pobl ifanc eraill

- Mae'r adnoddau hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i unrhyw berson ifanc
- Felly hyd yn oed os wyt ti ddim yn berson ifanc sydd â phrofiad o ofal, rydyn ni'n gobeithio bydd yr adnoddau ar bynciau fel cyllidebu, cyflogaeth, awgrymiadau siopa bwyd ac arian yn ddefnyddiol!

Dyma restr wirio o’r adnoddau sydd ar gael i’th helpu i ddysgu byw’n annibynnol!

## Rhestr Wirio Person Ifanc

## Rhestr Wirio Gweithwyr Proffesiynol

| Wedi ei ddarllen | Wedi ei ddeall | Teitl yr Adnodd | Wedi ei drafod gyda’r Person Ifanc | Wedi ei ddeall gan y Person Ifanc |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyllidebu | | |
| | | Arian - termau allweddol | | |
| | | Arian - Mae angen peth arna i! | | |
| | | Arian - Rhoi rhywfaint o arian heibio | | |
| | | Cyflogaeth- Beth rydw i angen gwybod | | |
| | | Budd-daliadau a hawl i fudd-daliadau | | |
| | | Budd-daliadau a Phethau i’w Hawlio - Addysg | | |
| | | Budd-daliadau a Phethau i’w Hawlio- Rhieni Ifanc | | |
| | | Cynghorion Siopa am Fwyd | | |
| | | Mynd o gwmpas | | |
| | | Taclu dy gartref | | |
| | | Cadw fy hun, fy arian a'reiddo sydd gen i yn ddiogel | | |